# Cynnig i gynyddu lleoedd yn:

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo

Dogfen Ymgynghori

**(Fersiwn i Blant)**



WCBC/ER638/05072023




wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion yma.

# Ein nodau:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion Saesneg, ysgolion Cymraeg neu ysgolion Ffydd ardderchog.
- Cael adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?


Byddem yn hoffi adeiladu ysgol fwy ar safle newydd ar gyfer Ysgol y Santes Fair, Brymbo.

Mae hyn oherwydd bod llawer o dai newydd yn cael eu hadeiladu ym Mrymbo ac mae'r ysgol bresennol yn rhy fach.

## Beth yw ein syniad ni?

Fe hoffem ni adeiladu ysgol fwy ar safle newydd er mwyn cynyddu nifer y plant sydd yn gallu dod i'r ysgol.

Pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddi di a'r plant yn dy ddosbarth yn symud i'r ysgol newydd.



# Beth fyddai'n newid?

Bydd gan dy rieni fwy o ddewis o ran pa ysgol y bydden nhw'n hoffi ei dewis ar gyfer dy frodyr a chwiorydd iau.

Fe fyddai yna fwy o blant yn dy ysgol di pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddi di a'r plant yn dy ddosbarth yn symud i'r ysgol newydd.

# Pam ydym ni'n meddwl bod angen newid pethau?

Mae Ysgol y Santes Fair yn rhy fach i chi a'r holl blant fydd yn dod i fyw i Brymbo yn y dyfodol.



## Pam ydym ni'n gofyn am dy farn?

Rydym am ofyn i ti beth wyt ti'n feddwl am ein cynllun.

Byddwn yn dod i weld eich Cyngor Ysgol ac yn gwrando ar y pethau sydd gennych chi i'w dweud.

## Pa mor hir y mae pethau'n cymryd?

Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:


**Hydref 2023 - Rhagfyr 2023**

Cytuno ar beth rydan ni'n ei wneud:

**Medi 2024**

Agor yr ysgol i fwy o ddisgyblion:

**Medi 2025**




## Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei ddeall, gobeithio. Rydym ni wedi anfon dogfen hirach o lawer at dy rieni, athrawon a phobl eraill. Mae'r ddogfen hirach ar ein gwefan:

wrecsam.gov.uk/ymgynghorial-santesfair-brymbo


# Beth wyt ti'n ei feddwl?

Dyweda wrthyn ni **os wyt ti'n deall** beth yw ein cynllun drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.




Rydw i'n deall

☐



Dydw i ddim yn siŵr os ydw i'n deall


☐



Dydw i ddim yn deall


☐

Dyweda wrthyn ni **sut wyt ti'n teimlo** am ein cynllun drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.




Rydw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn gwybod os ydw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn ei hoffi

☐

# Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei ddweud?


Cofia ddweud wrthym ni...

- Os oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn hytrach na beth sydd yn ein cynllun?
- Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld?

Anfonwch eich sylwadau atom ni erbyn:

**4 Rhagfyr 2023**

Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddwch yn ei anfon atom ni wedi hynny.



# Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn dweud wrth bawb beth ydi'r prif sylwadau.

  **Ebrill 2024**

- Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud.

  **Medi 2024**

- Yna byddwn yn gadael i bawb wybod beth ydi'r penderfyniad.

  **Medi 2024**

